Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Cadoc Sant

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Cadoc Sant yn ysgol groesawgar a hapus lle mae arweinwyr a staff yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion ac yn meithrin ymdeimlad cryf o gymuned. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn mwynhau eu dysgu ac yn ymddwyn yn eithriadol o dda.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a sicr. Mae hi wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar ddiben moesol cadarn a gwerthoedd cadarnhaol. Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu addysgu effeithiol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn rhannu bwriadau dysgu yn dda ac yn darparu cyfarwyddiadau clir ar gyfer disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio technegau holi yn llwyddiannus i werthuso dealltwriaeth disgyblion neu symud y dysgu ymlaen. Maent yn galonogol i ddisgyblion ac yn eu cynorthwyo i fod yn ddysgwyr meddylgar a myfyriol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y rhai o aelwydydd incwm isel a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu gwybodaeth a'u medrau.

Mae perthnasoedd rhwng disgyblion yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Mae staff yn gwerthfawrogi pwysigrwydd hyn ac yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion hŷn weithio gyda disgyblion iau yn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn eu helpu â medrau darllen a thynnu llun neu'n eu hannog i chwarae gemau ar y maes chwarae.

Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion, ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol mewn darllen ac ysgrifennu, ar y cyfan. Maent yn gwneud cynnydd arbennig o dda yn datblygu eu medrau llafaredd. Mae arweinwyr wedi nodi bod angen gwella cyfradd y cynnydd a wna disgyblion iau mewn llythrennedd. I ymateb i hynny, maent wedi addasu ymagweddau at addysgu ac wedi prynu adnoddau newydd.

At ei gilydd, mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cryf yn y rhan fwyaf o feysydd. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau rhifedd, Cymraeg a digidol yn dda. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu meddwl creadigol o fewn y celfyddydau mynegiannol ac ym meysydd eraill y cwricwlwm wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae ardal chwarae yn yr awyr agored a adnewyddwyd yn ddiweddar yn cefnogi datblygiad corfforol y disgyblion ieuengaf yn llwyddiannus. Fodd bynnag, o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 2, megis dechrau datblygu y mae meysydd darpariaeth barhaus i gefnogi dysgu wedi'i ysgogi gan y plentyn, dan do ac yn yr awyr agored, fel ei gilydd.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 2 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Sicrhau bod y cwricwlwm yn cefnogi datblygiad effeithiol creadigrwydd disgyblion, yn cynnwys cyfleoedd i fod yn arloesol, datblygu eu syniadau eu hunain a mynegi eu hunain trwy’r celfyddydau**

**A2 Gwella’r ddarpariaeth ar gyfer dysgu sylfaen ymhellach, yn cynnwys addysgu medrau llythrennedd cynnar, i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.